**Cyngor Cymuned Bryncrug Community Council**

**Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar**
**nos Lun 15fed o Ionawr 2024 am 7:10pm**

Presennol: Cynghorydd Geraint Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Richard Jones Evans, Arwel Pierce, Alan H. Jones

Cafwyd wybod bod y Cadeirydd, y Cynghorydd Alan H Jones yn gorfod gadael y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau gwaith ac felly bu i'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Geraint Evans gymryd y gadair.

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Richard C Evans a'r Cynghorydd Geraint Edwards

2. Datgan diddordeb: Nid oedd yr un cynghorydd wedi datgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 20 Tachwedd 2023:

Adroddodd y Cynghorydd Bethan Lawton ei bod wedi ffonio banc Barclays yn dilyn derbyn llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth. Nid oedd y banc angen rhagor o wybodaeth.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Adolygu gwariant o Ebrill 2023 i Ragfyr 2023:

Darparwyd taenlen Excel yn manylu ar y gwariant, a'r gwariant yn erbyn y gyllideb.

Amcangyfrifwyd bod oddeutu £4,000 o wariant i'w wneud o Ionawr 2024 hyd at Fawrth 2024, gydag oddeutu £18,000 ar ôl ym malansau'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

5. Gosod cyllideb ar gyfer 2024/2025:

| **CYLLIDEB** | **2024/2024** |
|---|---:|
| CLERC - CYFLOG | 1,750.00 |
| CLERC - YG | 250.00 |
| CLERC - TEITHIO | 300.00 |
| CLERC - HYFFORDDIANT | 75.00 |
| GWEINYDDOL - DEUNYDD SWYDDFA | 50.00 |
| GWEINYDDOL - POSTIO | 90.00 |
| GWEINYDDOL - LLOGI YSTAFELL | 220.00 |
| GWEINYDDOL - FFÔN | 115.00 |
| GWEINYDDOL - GWEFAN | 100.00 |
| PENTREF - CYNNAL A CHADW | 500.00 |
| PENTREF - CELFI HANESYDDOL | 0.00 |
| PENTREF - BLODAU | 350.00 |
| PENTREF - FEINCIAU | 100.00 |
| PENTREF - LLOCHESI BWS | 2,000.00 |
| PENTREF - TOILED | 2,000.00 |
| PENTREF - CLWB IEUENCTID | 555.89 |
| PENTREF - ARWYDD CYFLYMDER | 0.00 |
| CAE - TRYDAN | 900.00 |
| CAE - PAFILIWN | 1,500.00 |
| CAE - TORRI GWAIR | 1,200.00 |

| | |
|---|---|
| CAE - OFFER CHWARAE NEWYDD | 0.00 |
| CAE - CYNNAL A CHADW OFFER | 600.00 |
| CAE - BINIAU 'SBWRIEL | 120.00 |
| CYFRANIADAU A.137 | 750.00 |
| CORFFORAETHOL - UN LLAIS CYMRU | 150.00 |
| CORFFORAETHOL - YSWIRIANT | 950.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD MEWNOL | 250.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD ALLANOL | 300.00 |
| AELODAU - ETHOLIAD | 0.00 |
| AELODAU - HYFFORDDIANT | 200.00 |
| AELODAU - COSTAU TEITHIO | 100.00 |
| AELODAU - LWFANS £156 | 1,404.00 |
| AELODAU - LWFANS £52 | 468.00 |
| AELODAU - LWFANS GOFALU | 300.00 |
| SEFYLLFA ANARFEROL | 0.00 |
| **CYFANSWM** | **£17,647.89** |

**PENDERFYNIAD:** I osod cyllideb fel yr uchod ar gyfer 2024/2025, sef £17,647.89.

6. Gosod y bresept ar gyfer 2024/2025:

**PENDERFYNIAD:** I osod y bresept ar gyfer 2024/2025 yn £13,350, gyda gweddill o’r arian o’r balansau.

7. Cyfrifon i’w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Scottish Power | Trydan | 101869 | £296.75 |
| B Gwilym | Cyflog | 101870 | £420.32 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101871 | £105.00 |

Trafodwyd llythyr yr oedd wedi ei dderbyn gan Barclays yn gofyn am ragor o wybodaeth am y cyfrif banc.

**PENDERFYNIAD:** I dalu’r anfonebau uchod.
I ofyn i Scottish Power am fesurydd clyfar a thalu drwy ddebyd uniongyrchol. Y Cyng. Alan H Jones i ddarparu darlleniad y mesurydd gan fod yr anfoneb sydd newydd ei thalu wedi ei amcangyfrif.

8. Dŵr Cymru - gwaith trin carthffosiaeth Bryncrug:

Yr oedd ymateb wedi ei dderbyn gan gwmni Dŵr Cymru mewn ymateb i lythyr y cyngor.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I anfon copi o’r llythyr drwy e-bost at y ddau gynghorydd sydd yn absennol o’r cyfarfod er gwybodaeth iddynt.

9. Cais gan aelod o’r cyhoedd am ardd gymunedol yng nghae chwarae Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gyda’r unigolyn gan estyn gwahoddiad i’r unigolyn fynychu cyfarfod nesaf y cyngor er mwyn trafod y cynnig dan sylw.

10. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Felin yr Ynys, Bryncrug, LL36 9NU (NP5/55/6B):

**PENDERFYNIAD:** Dim sylw.

11. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio – 21 Y Groesffordd, Bryncrug, LL36 9RP (NP5/55/238):

**PENDERFYNIAD:** Dim sylw.

12. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-Canghennau Scotts Pine wedi dod lawr ac angen eu clirio

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I gysylltu gyda Defibstore er mwyn canfod os oes modd cael gwresogydd newydd i'r cabinet sydd yn cadw'r peiriant diffibrileiddio. Nodwyd bod unigolyn lleol sydd yn gwirfoddoli gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans yn trefnu batri newydd i'r peiriant.

13. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:
-Nyrsys o India wedi cyrraedd ac maent yn derbyn hyfforddiant yn Nolgellau
-Nid oes cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd wedi ei gynnal oherwydd anghydfod diwydiannol
-Dywedwyd bod canmoliaeth yn lleol i'r staff newydd sydd wedi cychwyn
-Ymgynghoriad ar-lein yn cael ei gynnal ym mis Chwefror ar yr Ambiwlans Awyr
-Treth Cyngor Gwynedd yn edrych fel y bydd codiad oddeutu 10 y cant eleni
-Bagiau yn llawn baw cŵn wedi ei gadael wrth ymyl bin ysbwriel, swyddogion Cyngor Gwynedd wedi bod yno i glirio
-Nid oedd llawer yn mynychu'r clwb ieuenctid ar hyn o bryd

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

14. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Gofynnwyd i'r Clerc gofnodi yn ffurfiol bod cyfrifon 2019/2020 a 2020/2021 wedi eu derbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. Adroddodd y Clerc bod y cyfrifon wedi eu hanfon gan ddefnyddio gwasanaeth tracio'r Post Brenhinol, gyda'r cyfrifon wedi eu postio ar 17 Hydref 2023.

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn eu hysbysu nad yw'r ffosydd yn cael eu clirio.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:53pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................